**COFNODION Y CYFARFOD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Mehefin 2002 |
| **Amser:** | 9 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell A3.13 |

**Yn bresennol:**
John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Busnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr / YP y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jonathan Morgan.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

### (i) BC174-02 (Terfynol) Dydd Mawrth 21 Mai 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) BC183-02 (Drafft) Dydd Mawrth 28 Mai 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Roedd un gwelliant a fyddai'n cael ei gynwys yn y fersiwn terfynol i'w gyfieithu yn barod i'w gyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion sy'n Codi (BC183-02 Dydd Mawrth 28 Mai 2002)

3.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi derbyn llythyr gan Aelod o'r Cynulliad ynghylch datganiadau sy'n cael eu gwneud yn y Cyfarfod Llawn. Roedd yr Aelod wedi cwyno bod datganiad diweddar wedi cynnwys "dim byd

newydd o ran penderfyniad neu weithredu gan y llywodraeth".  Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad wedi argymhell y dylid defnyddio datganiadau i roi gwybod i'r Cynulliad am ddatblygiadau newydd o ran polisi neu weithredu.  Dywedodd fod penderfyniad i wneud datganiad yn un o freintiau'r Llywodraeth.  Os oedd Aelodau'n credu nad oedd datganiad yn cydymffurfio ag argymhelliad yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad, dylent wneud hyn yn glir i'r Gweinidog yn ystod y Cyfarfod Llawn. Nododd Kirsty Williams fod Pwyllgorau ar adegau yn gofyn i Weinidog wneud datganiad i'r Cyfarfod Llawn.  Cytunwyd, os mai dyna oedd yn digwydd, y dylid annog Gweinidogion i wneud hynny'n hysbys wrth gyflwyno'r datganiad. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'n trosglwyddo barn y Pwyllgor i'w gydweithwyr yn y Cabinet.

**<u>4. Is-ddeddfwriaeth</u>**
**<u>(a) Gorchmynion i'w hystyried</u>**

- Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apelau) (Cymru) 2002 (BC185-02)
  *Y Weithdrefn a Argymhellir: Carlam*
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC186-02)
  *Y Weithdrefn a Argymhellir: Carlam*
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2002 (BC187-02) *Y*
  *Y Weithdrefn a Argymhellir: Carlam*
- Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm y Lefelau o Waddod mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Diwygio) 2002 (BC188-02)
  *Rheol Sefydlog 23, Adran 3*

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau BC185-02 i BC133-02 a oedd yn rhoi cyngor ar sut i ddelio â'r gorchmynion uchod a chytunodd ar y gweithdrefnau a argymhellwyd.  Er bod BC185-02 i BC187-02 wedi'u postio'n hwyr i'r Fewnrwyd, nododd y Drirpwy Lywydd fod y cyfnod postio yn cynnwys dau benwythnos.
**Gan hynny, dyfarnodd y Dirprwy Lywydd na fyddai'n rhaid cyfeirio'r Gorchmynion hyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol; papurau i'w nodi.</u>**

<u>BC189-02</u>

4.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad at yr Aelodau ar y defnydd o'r weithdrefn Weithredol i ddiddymu'r Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) ac i ail-lunio'r rheoliadau i unioni unrhyw fylchau gweithdrefnol.

**5. <u>Cyngor i'r Cynulliad am weithdrefnau</u>**

<u>BC180-02</u>

5.1  Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y papur hwn wedi gosod cynnig ar gyfer newid y weithdrefn ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog sy'n deillio o Adolygiad y Cynulliad o'i Weithdrefnau.  Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i benderfyniad ar y mater o hyd.  Cytunodd y Pwyllgor i ohirio gwneud penderfyniad tan y cyfarfod ar 18 Mehefin.

**6.  Y Pwyllgorau**

**7.  Busnes arfaethedig**

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC180-02 a oedd yn rhoi manylion am fusnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2  Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod y Prif Weinidog yn mynychu'r gwasanaeth yn yr Eglwys Gadeiriol ar gyfer y Frenhines ym Mangor.  Byddai'n teithio'n ôl ar gyfer y Cyfarfod Llawn yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw a byddai'r Llywodraeth yn ceisio newid trefn busnes drwy gynnig gweithdrefnol fel y gallai fod yn bresennol ar gyfer y Cwestiynau i'r Prif Weinidog.  Dywedodd Jocelyn Davies fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i ddechrau'r Cyfarfod Llawn ar yr amser arferol ac y gellid fod wedi hysbysu'r Rheolwyr Busnes yn gynharach y byddai'r Llywodraeth yn cynnig newid trefn busnes. Gofynnodd a allai'r Dirprwy Brif Weinidog gymryd cwestiynau yn lle'r Prif Weinidog.  Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad mai dyna fyddai'n digwydd os na fyddai'r Prif Weinidog yn dychwelyd o Fangor mewn pryd.  Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau eraill.

7.3 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa grwpiau'r pleidiau y byddai'r Cyfarfod Llawn yn dechrau am 1.15 pnawn dydd Iau 13 Mehefin oherwydd ymweliad y Frenhines â'r Cynulliad.

(ii) Datganiad Busnes Drafft

7.4 Fe wnaeth y Pwyllgor nodi datganiad drafft y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ar gyfer trefnu busnes y Cynulliad yn yr wythnosau yn dechrau ddydd Mawrth 18 Mehefin, dydd Mawrth 25 Mai a dydd Mawrth 2 Gorffennaf.

7.5  Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod tri newid i'r busnes a amlinellir yn y Datganiad Busnes Drafft.  Mae datganiad am bresenoldeb y Gweinidog dros Ddiwylliant yn y Cyngor Prydeinig Gwyddelig wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 18 Mehefin.  Byddai'r cynnig i newid y Cyfarfodydd Llawn o ddydd Iau i ddydd Mercher yn cael ei amserlennu ar gyfer dydd Iau 20 Mehefin.  Roedd datganiad ar y Strategaeth Troseddwyr Ifanc hefyd wedi'i amserlennu ar gyfer 25 Mehefin.

7.6 Yn unol â'r canllawiau y cytunodd y Pwyllgor arnynt yn ddiweddar, hysbysodd y Gweinidog yr Aelodau fod y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn

bwriadu trafod thri chynnig cysylltiedig gyda'i gilydd ddydd Iau 20 Mehefin. Dyma'r cynigion i'w cymeradwyo:

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002;
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru ) 2002 a
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 ,

7.7 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod yr amserlen ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar 20 Mehefin ym ymddangos yn dynn. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'n ystyried hyn ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

**8. <u>Materion a gyfeiriwyd gan y cyfarfod llawn</u>**

**9. <u>Adolygu Rheolau Sefydlog</u>**

**<u>10. Dyfarniadau'r Llywydd</u>**

**<u>11. Unrhyw fater arall</u>**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**